


Wisemans Bridge/Pleasant Valley

Teithiau Byr



Wisemans Bridge/Pleasant Valley

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 3.5 milltir (5.7 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws
gwasanaeth Wisemans Bridge,
Saundersfoot and Stepside
350/351/353.

Cyfeirnod map: SN145061

**O'r Ail Ryfel Byd i'r Gerddi
Coetir, taith wedi'i thrwytho
mewn hanes sy'n llawn o
bethau i'w gweld.**

Chwiliwch am: Llwybr yn dilyn hen
reilffordd y pwll glo sydd ddim yn cael
ei ddefnyddio bellach i Bwll Glo'r
Gelli, Stepside.

Defnyddiwyd y traeth yn Wiseman's
Bridge fel man ymarfer ar gyfer
glaniadau Normandy yn 1944 o dan
lygaid barcut Churchill ei hun. Mae'r
daith goediog i fyny Pleasant Valley
sy'n wir yn Ddyffryn Dymunol, yn
arwain at olion Gwaith Haearn
Cilgeti, a oedd yn prosesu mwynau a
gloddiwyd o fannau bach hwnt ac
yma ar glogwyni'r môr rhwng
Saundersfoot a Llanrhath, a Phwll
Glo'r Gelli yn Stepside. Mae'r daith
yn dilyn llwybr hen reilffordd y gwaith
glo sydd ddim yn cael ei ddefnyddio
erbyn hyn (a oedd yn llwybr ar gyfer
tram a dynnwyd gan geffyl yn
wreiddiol). Ar un adeg,
trawsnewidiwyd y nant ochr yn ochr
yn llwyddiannus i mewn i gamlas.

Daw enw Wiseman's Bridge o deulu'r
Wyseman a oedd yn berchen ar dipyn
bach o dir yn yr ardal ar un adeg.
Chwiliwch am y titw tomos las, y titw
mawr, y dryw, cnocell mawr brith y
coed a'r asgell fraith yn y coed.
Gerllaw, mae gan Gerddi Coetir
Colby un o'r casgliadau gorau o
rododendrons ac asaleas yng
Nghymru, gyda chlychau'r gog a

chennin Pedr yn y Gwanwyn, blodau'r
enfys yn yr Haf a lliwiau gwych yn yr
Hydref.

Mae'r gerddi'n eiddo i'r
Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac ar
agor o fis Ebrill i fis Tachwedd.

Cymeriad: Arfordir, lonydd, caeau a
da byw, dychwelyd trwy'r coetir ar
gyfer Neuadd Coppet .

